| | |
|---|---|
| **CYFARFOD** | PWYLLGOR IAITH |
| **DYDDIAD** | 25 Ionawr 2022 |
| **TEITL** | Adroddiad ar weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd gan yr Adran Addysg |
| **PWRPAS** | Cyflwyno gwybodaeth am gyfraniad yr Adran Addysg i weithrediad y Polisi Iaith a Chynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd |
| **AWDUR** | Debbie Anne Williams Jones, Rheolwr Gwasanaethau Corfforaethol Addysg |

## 1. CEFNDIR

Mae’r adroddiad hwn wedi ei baratoi er mwyn cyflwyno gwybodaeth i’r Pwyllgor Iaith am gyfraniad yr Adran Addysg i weithrediad Polisi Iaith y Cyngor a Chynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd.

Mae Polisi Iaith y Cyngor wedi ei wreiddio drwy holl waith yr Adran ac ysgolion, a byddwn yn amlygu yn yr adroddiad hwn y cyfleoedd sydd ar gael i ddatblygu sgiliau iaith, meithrin hyder a hybu’r Gymraeg, yn ogystal â chydnabod rhai heriau sydd yn ein hwynebu mewn rhai meysydd penodol.

Rydych eisoes yn ymwybodol o’r gwaith manwl sydd wedi ei gyflawni gennym dros y flwyddyn ddiwethaf yn paratoi ar gyfer cynllun 10 mlynedd Cynllun Strategol y Gymraeg mewn Addysg (CSGA). Mae cyfnod ymgynghori cyhoeddus ar y ddogfen CSGA drafft newydd ddod i ben cyn y Nadolig, a byddwn yn ystyried y sylwadau a dderbyniwyd yn ystod y cyfnod ymgynghori gan addasu’r CSGA fel y gwelwn orau cyn ei gyflwyno am sêl bendith y Cabinet a Llywodraeth Cymru, er mwyn iddo ddod yn ddogfen weithredol erbyn Medi 2022. Wrth gwrs, mae’r CSGA yn greiddiol i’r modd yr ydym yn cynllunio ym maes addysg Gymraeg a dwyieithog yng Ngwynedd, gan gynnwys defnydd cymdeithasol o’r Gymraeg, hyrwyddo manteision y Gymraeg a dwyieithrwydd, yn ogystal â chefnogi sgiliau iaith y gweithlu addysg. Gwelir perthynas agos felly, rhwng yr adroddiad hwn a’r CSGA.

## 2. YMATEB YR ADRAN ADDYSG I GYNLLUN HYBU’R GYMRAEG YNG NGWYNEDD

| | |
|---|---|
| **1.** | **Allwch chi amlygu unrhyw brosiectau o fewn eich adran sydd yn cyfrannu tuag at un o flaenoriaethau strategaeth iaith y Cyngor, sef Cynllun Hybu’r Gymraeg yng Ngwynedd?** |
| | |
| | **1. IAITH Y TEULU**<br>**a) Cynnydd yn nifer y cyfleoedd chwarae cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant cyn oed ysgol** |

Mae’r Adran Addysg yn cydweithio gyda’r Adran Plant a Theuluoedd yn y maes Blynyddoedd Cynnar. Yn unol â’r hyn a nodir yn y CSGA, sicrheir bod pob lleoliad Blynyddoedd Cynnar yn gosod sylfaen gadarn ar gyfer y Gymraeg, gan sicrhau fod pob plentyn yn cael asesiad sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu yn y Gymraeg ar fynediad ac ar derfyn addysg feithrin rhan amser ac ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Rhaid sicrhau darpariaeth addas i ganiatáu i bob disgybl ddatblygu’n hyfedr ddwyieithog. Gweler isod ein sefyllfa bresennol mewn perthynas â nifer y plant meithrin/tair oed sy’n cael eu haddysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Data Cylchoedd Meithrin Gwynedd 2018-19 (Dim data 2019-20 ar gael yn sgil COVID):

| **Ardal** | **Nifer Cylchoedd Meithrin** | **Nifer / % plant meithrin 3 oed sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg** | |
|---|---|---|---|
| Arfon | 28 | 834 | 99.3% |
| Dwyfor | 18 | 301 | 100% |
| Meirionnydd | 19 | 346 | 100% |

Yn ein CSGA 10 mlynedd, nodir ein hymrwymiad i gydweithio gydag un ysgol gynradd ym Mangor er mwyn cynyddu eu defnydd a’u darpariaeth Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd yn y % o blant meithrin yn Arfon sydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg.

b) **Gwell dealltwriaeth ymysg rhieni o werth trosglwyddo’r Gymraeg i blant, ac o fanteision amlieithrwydd.**
Mae adnoddau ar fanteision dwyieithrwydd wedi eu rhannu gydag ysgolion ac ar gael ar Hwb Siarter Iaith at ddefnydd pawb.

**2. IAITH DYSGU**

a) **Ysgolion sydd yn rhoi bri a gwerth i’r Gymraeg ac yn annog mwy o ddefnydd o’r Gymraeg fel cyfrwng dysgu a chymdeithasu drwy barhau i weithredu’r Siarter Iaith a Strategaeth Iaith Uwchradd**
Nod y Polisi Iaith yw sicrhau bod holl ddysgwyr y sir, ym mhob un o’n hysgolion, yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a’r Saesneg. Disgwylir i holl sefydliadau addysg y sir adlewyrchu ac atgyfnerthu’r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a’u trefn fugeiliol yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd. Mae’r Polisi Iaith yn rhoi pwyslais ar drochi dysgwyr 0-7 oed yn y Gymraeg, gan sicrhau mai asesiad Cymraeg yn unig a gânt ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn 2018-19, bu i 98.5% o ddysgwyr gael eu hasesu yn y Gymraeg fel Iaith Gyntaf ar ddiwedd y Cyfnod Sylfaen. Yn CA2, rydym yn parhau i ddatblygu gafael disgyblion ar y Gymraeg gan roi sylw i ddatblygu eu sgiliau yn y ddwy iaith.

b) **Mwy o ddisgyblion yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o’r cynradd i’r uwchradd ac i addysg ôl-orfodol.**

Yn yr uwchradd, disgwylir i bob disgybl sydd wedi cyrraedd lefel angenrheidiol sef 3+ ar ddiwedd CA2 ddilyn Cymraeg a'r Saesneg fel pynciau hyd at ddiwedd Blwyddyn 11. Mae ysgolion uwchradd yn adeiladu ar y sylfaen a osodwyd yn y cynradd trwy sicrhau bod pob disgybl yn parhau i ddatblygu sgiliau yn y Gymraeg a'r Saesneg. Yn sgil pandemig Covid-19, nid oes data ar gael ar gyfer 2019-20 a 2020-21, felly data 2018-19 yw'r data mwyaf cyfredol sydd gennym o safbwynt dysgwyr yn parhau i wella eu sgiliau Cymraeg wrth drosglwyddo o un cyfnod o'u haddysg statudol i un arall, fel y dengys y tabl isod:

| | | |
|---|---|---|
| 2018-19 | Dysgwyr blwyddyn 9 yn cael eu hasesu yn Y Gymraeg (Iaith Gyntaf) | 84.5% |
| 2018-19 | Dysgwyr Cyfnod Sylfaen yn ennill Deilliant 5+ Y Gymraeg (asesiadau athro) | 78.8% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA2 yn ennill Lefel 4+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro) | 86.9% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Iaith Gyntaf (asesiadau athro) | 91.9% |
| 2018-19 | Dysgwyr CA3 yn ennill Lefel 5+ Y Gymraeg Ail Iaith (asesiadau athro) | 77.1% |

Yn yr un modd, dengys y tabl isod ddata 2018-19 mewn perthynas â rhagor o ddysgwyr yn astudio ar gyfer cymwysterau Cymraeg (fel pwnc) a phynciau drwy gyfrwng y Gymraeg:

| | | |
|---|---|---|
| 2018/19 | Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf dau gymhwyster pellach drwy gyfrwng y Gymraeg. | 78.1% |
| 2018/19 | Dysgwyr a gofrestrwyd i sefyll TGAU Cymraeg (Iaith Gyntaf) a chofrestru ar gyfer o leiaf pump cymhwyster pellach ar lefel 1 neu lefel 2 drwy gyfrwng y Gymraeg. | 64.2% |
| 2018/19 | Dysgwyr ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 enillodd raddau A*-C mewn TGAU Cymraeg Iaith Gyntaf | 70.7% |

**c) Ymateb i effaith y pandemig ar y Gymraeg**

Yn dilyn cyfnod estynedig o addysgu gartref, a'r pryder cenedlaethol a fynegwyd am effaith andwyol Covid ar safonau'r Gymraeg, rydym wedi casglu data drwy gyfrwng amrywiol holiaduron er mwyn cael gwell trosolwg o sgiliau iaith Gymraeg ein plant a'n pobl ifanc.
Mae'r dystiolaeth o'r holiaduron yn dangos mai sgiliau llafaredd yw'r pryder mwyaf ar draws y sir, ac mae pob ysgol wedi mynd ati i lunio cynllun gweithredu mewn ymateb i'r sefyllfa. Mae'r Cydlynydd Strategaeth Iaith Uwchradd a'r Cydlynydd Siarter Iaith wedi trefnu cyfarfod dilynol gyda phob ysgol i drafod yr adroddiad a hwyluso unrhyw gefnogaeth all fod ei hangen arnynt, boed hynny drwy swyddogion yr Awdurdod, y Cydlynwyr Iaith neu GwE. Mae bwriad ail-gyflwyno'r holiadur ar ddiwedd y flwyddyn addysgol er mwyn mesur effaith unrhyw weithredu. Mae'r Cydlynydd Siarter Iaith a'r Cydlynydd Strategaeth Iaith uwchradd bellach yn cefnogi rhai ysgolion unigol i weithredu eu cynlluniau i ddatblygu sgiliau llafaredd a chodi hyder dysgwyr yn y Gymraeg.

Hefyd, mae cefnogaeth gyllidol gan Lywodraeth Cymru drwy'r consortia rhanbarthol yn galluogi ysgolion i gyd-gynllunio ymyraethau ar lefel clwstwr (cynradd ac uwchradd) er mwyn cryfhau defnydd cymdeithasol dysgwyr o'r Gymraeg, ynghyd ag ymateb i anghenion sgiliau iaith y gweithlu addysg.  Rydym wedi bod yn cydweithio'n agos gyda chydlynwyr iaith y sir er mwyn sicrhau bod cynlluniau clwstwr Grant y Gymraeg ymhob dalgylch yn ymateb i'r anghenion a amlygwyd, megis codi hyder a datblygu sgiliau llafaredd dysgwyr yn y Gymraeg a amlygwyd yn sgil y pandemig. .

**d) Canolfannau Iaith**

Yn sgil y pandemig bu i staff y Canolfannau Iaith orfod addasu a thrawsnewid y ffordd yr oeddent yn darparu cefnogaeth i newydd-ddyfodiaid i gaffael y Gymraeg. Yn wir, staff y Canolfannau Iaith oedd y cyntaf i beilota cynnal sesiynau dysgu byw yn ystod Tymor yr Haf 2020, a hynny er mwyn cynnal iaith lafar newydd-ddyfodiaid, ac mae'r arfer o ddysgu cyfunol, sef sesiynau wyneb yn wyneb a dysgu o bell yn parhau'n rhan allweddol o ddarpariaeth y Canolfannau Iaith gyda'r ysgolion. I ategu'r ffordd newydd hwn o gefnogi newydd-ddyfodiaid, ar 6 Gorffennaf 2021, bu i'r Cabinet gymeradwyo gweledigaeth newydd ar gyfer cyfundrefn addysg drochi gyfoes yng Ngwynedd sydd yn rhoi'r dysgwr yn ganolog wrth eu cefnogi hwy a newydd-ddyfodiaid y sir i gaffael y Gymraeg. Mae'r weledigaeth newydd yma hefyd yn cynnwys buddsoddiad cyfalaf o £1.1miliwn gan Lywodraeth Cymru er mwyn sefydlu safleoedd addysg drochi o'r newydd ym Mangor a Thywyn, ynghyd â gwella'r cyfleusterau ar safle Eifionydd ym Mhorthmadog. Gobeithir y bydd y gyfundrefn addysg drochi ar ei newydd wedd yn dod i rym ar 1 Ionawr 2023.  Hefyd, cawsom gadarnhad yn ddiweddar fod yr Adran wedi bod yn llwyddiannus yn ei gais grant o £154,000 i wireddu dau brosiect i gyfoesi'r ddarpariaeth drochi i adlewyrchu gofynion Cwricwlwm i Gymru a'r Strategaeth Addysg Ddigidol, ynghyd ag arfogi ymarferwyr ysgolion Gwynedd yn egwyddorion ac arferion trochi iaith.

**3. IAITH GWAITH A GWASANAETHAU**

**a) Gwasanaethau Cymraeg**

Yr ydym yn falch o fedru adrodd bod holl wasanaethau'r Adran Addysg ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg.

**b) Dynodiadau Iaith**

Mae 96.2% o staff yr Adran Addysg (ac eithrio ysgolion) yn cyrraedd dynodiad iaith eu swyddi. Mae Tîm Rheoli'r Adran wedi ymrwymo i gefnogi staff sydd angen dysgu neu loywi iaith i fynychu'r amrywiaeth o gyfleoedd sydd ar gael i wneud hynny. Mae egwyddorion a gweithdrefnau'r Dynodiadau Iaith hefyd wedi'u cynnwys yn Neilliant 7 o'r CSGA.

Er mwyn ceisio sicrhau cysondeb o ran disgwyliadau gofynion ieithyddol (Dynodiadau Iaith) swyddi ar draws holl adrannau'r Cyngor (gan gynnwys ysgolion), mae'r Swyddogion Addysg wedi bod yn gweithio'n agos gyda Swyddogion Adnoddau Dynol, Swyddogion Democratiaeth ac Iaith, a Swyddogion Dysgu a Datblygu ar y gwaith o bennu ein disgwyliadau o ran gofynion ieithyddol ar gyfer penodi gweithlu ein hysgolion. Mae Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel Ysgolion yn nodi disgwyliadau gofynion ieithyddol yr Adran Addysg yn glir i Benaethiaid a Chadeiryddion Cyrff Llywodraethol. Disgwylir i'r Gymraeg gael ei nodi fel sgil allweddol ar gyfer pob swydd addysgu, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd - gwrando a siarad, darllen a deall, ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu. Rydym wedi mynd ati i addasu Swydd Ddisgrifiadau, Manylion Person, Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel ein hysgolion i sicrhau eu bod yn cynnwys cyfeiriad at y Dynodiadau Iaith. O ganlyniad, wrth benodi i'r gweithlu addysg, disgwylir i'r Dynodiad Iaith gael ei gynnwys ym mhob hysbyseb yn unol â disgwyliadau'r Adran Addysg.

**c) Hunanasesiad Iaith Gymraeg**

Mae 75.9% o staff yr Adran Addysg (ac eithrio ysgolion) wedi cwblhau hunanasesiad iaith Gymraeg. Ar hyn o bryd, mae 24.1% o staff canolog yr Adran Addysg heb gwblhau'r hunanasesiad, ac mae'r dasg o sicrhau bod staff cyfredol a staff newydd yn cwblhau'r hunanasesiad yn waith parhaus.

**d) Cyfrifiad Blynyddol y Gweithlu Addysg**

Rydym wedi rhoi sylw penodol i gefnogi sgiliau iaith gweithlu ein hysgolion uwchradd er mwyn ceisio hwyluso dyfodol cyfrwng Cymraeg i'r ddarpariaeth ar draws y cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3, 4 a 5 trwy dreialu cynllun peilot Cymraeg Gwaith i Athrawon, Llywodraeth Cymru gyda staff addysgu un ysgol uwchradd yn y sir. Ar sail data'r Cyfrifiad Iaith y Gweithlu Addysg diweddar, rydym hefyd yn targedu a chefnogi rhai ysgolion ar draws y sir er mwyn sicrhau eu bod yn gallu ymateb i anghenion ieithyddol eu staff trwy hyrwyddo mynediad at gyfleoedd i ddysgu Cymraeg neu i godi eu hyder yn y Gymraeg, yn ogystal ag ymateb yn llawn i bolisi iaith ysgolion Gwynedd o ran cyfrwng addysgu ac iaith weinyddol yr ysgol.

Yn ein Cynllun Busnes sy'n cyd-fynd gyda'n CSGA 10 mlynedd, nodir ein hymrwymiad i gydweithio gyda rhai ysgolion penodol er mwyn cynyddu eu defnydd a'u darpariaeth Gymraeg yn unol â Pholisi Iaith y Cyngor, fydd yn arwain at gynnydd yn y % o blant meithrin fydd yn trosglwyddo i addysg Gymraeg, a chynnydd yn y % o ddisgyblion uwchradd fydd yn astudio pynciau trwy gyfrwng y Gymraeg ac yn sefyll arholiadau diwedd Cyfnod Allweddol 4 a 5 yn y Gymraeg.

e) **Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel**

Prif nod Polisi Iaith a Pholisi Recriwtio a Dethol Diogel ysgolion yw sicrhau bod Penaethiaid, staff yr ysgolion a Llywodraethwyr yn ymwybodol o'r disgwyliadau i ddefnyddio, hybu a hyrwyddo'r Gymraeg ym mhob rhan o weithrediad ysgolion y sir, ac i sicrhau bod hawl y disgyblion a theulu estynedig yr ysgol i ddefnyddio'r Gymraeg wrth ymwneud efo'r ysgol yn cael ei barchu bob amser.

Wrth weithredu'r polisïau hyn bydd yr ysgol a'r corff llywodraethu yn sicrhau:

- bod holl ddisgyblion y sir yn meddu ar sgiliau ieithyddol priodol yn y Gymraeg a'r Saesneg, a bod y disgwyliad hwnnw yn gyson ar draws pob un o'r ysgolion.

- bod darpariaeth addas i alluogi pob disgybl i ddatblygu'n hyfedr ddwyieithog. Yn y cyd-destun hwn, disgwylir i ysgolion barhau i feithrin sgiliau'r disgyblion hynny sy'n Gymry Cymraeg, a chyflwyno'r Gymraeg i'r rhai hynny sy'n ddysgwyr.

- bod holl sefydliadau addysg y sir yn adlewyrchu ac atgyfnerthu'r Polisi Iaith yn eu gweinyddiad, eu bywyd cymdeithasol a'u trefn fugeiliol, yn ogystal ag yn eu darpariaeth gwricwlaidd.

- bod y Gymraeg yn cael ei nodi fel sgil allweddol ar gyfer pob swydd addysgu, gyda'r union lefel o sgiliau ieithyddol sydd eu hangen ar gyfer cyflawni gofynion y swydd - gwrando a siarad, darllen a deall ac ysgrifennu - yn cael eu dangos yn glir yn y Manylion Person wrth hysbysebu.

**4. IAITH Y GYMUNED**

a) **Siarter Iaith / Strategaeth Iaith Uwchradd:**

- Cefnogi ysgolion i weithredu prif flaenoriaethau'r Siarter Iaith/Strategaeth Iaith Uwchradd.
- Pob disgybl cynradd ac uwchradd yn llenwi'r Gwe Iaith er mwyn cael gosod gwaelodlin. Ail-ymweld â'r holiadur ar ddiwedd y flwyddyn addysgol er mwyn cael profi effaith unrhyw weithredu.
- Canlyniadau Holiaduron Sgiliau'r Gymraeg wedi eu rhaeadru gyda'r ysgolion a chynlluniau gweithredu wedi eu llunio ar y cyd gyda'r ysgolion mewn ymateb i'r canfyddiadau.

b) **Cynlluniau Clwstwr y Gymraeg:**

| | |
|---|---|
| | • Rydym wedi ail-ddiffinio rolau a rhaglenni gwaith cydlynwyr iaith pob dalgylch yng Ngwynedd i sicrhau eu bod yn ymateb i ddeilliannau CGSA Gwynedd.<br>• Mae pob ysgol ym mhob dalgylch yng Ngwynedd wedi llunio'u cynlluniau clwstwr ar gyfer Y Gymraeg gan ymateb ac anelu i gyflawni deilliant 3 a 5 o'r CSGA. Ar ôl derbyn grant Y Gymraeg ym mis Rhagfyr mae'r ysgolion yn mynd ati i roi pob cynllun ar waith.<br>• Cydlynydd Siarter a Strategaeth Iaith Uwchradd yn gwirio cynlluniau clwstwr Grant y Gymraeg i sicrhau eu bod yn cyd-fynd gyda deilliannau'r CSGA, yn cryfhau'r cydweithio rhwng y cynradd a'r uwchradd, ac yn ymateb i anghenion lleol fydd yn rhoi mwy o gyfleoedd i ddisgyblion Gwynedd gael defnyddio'r Gymraeg yn gymdeithasol.<br><br>**c) Moderneiddio Addysg**<br>Fel rhan o'r broses o ddatblygu cynnig/cynigion ar gyfer ad-drefnu ysgol/ysgolion, mae'n ofynnol i'r awdurdod, yn unol â Chod Trefniadaeth Ysgolion (011/2018), gynnal asesiad o'r effaith fyddai'r cynnig/cynigion yn ei gael ar yr iaith Gymraeg, y gymuned ac ar gydraddoldeb. Er mwyn gwneud asesiad cynhwysfawr o effaith unrhyw gynnig arfaethedig, fel rhan o'r broses ymgynghori, mae'r awdurdod yn cynnal yr asesiadau effaith canlynol:<br>• Asesiad effaith debygol ar Ansawdd a Safonau Addysg<br>• Asesiad Effaith debygol ar drefniadau teithio<br>• Asesiad effaith debygol ar y Gymuned<br>• Asesiad effaith ieithyddol<br>• Asesiad yn erbyn y Ddeddf Llesiant, ac<br>• Asesiad Cydraddoldeb<br>Yn 2021, cynhaliwyd y broses hon wrth i'r awdurdod adolygu dyfodol Ysgol Abersoch yn sgil nifer o heriau a oedd yn wynebu'r ysgol. Bydd yr Adran Addysg yn gweithio'n draws-adrannol, gyda hunaniaith, yr Adran Economi a Chymuned, ynghyd â'r gymuned leol i hybu'r Gymraeg yn gymunedol ym mhentref Abersoch. |
| | |
| | **1. YMCHWIL A THECHNOLEG**<br>**a) Cefnogi twf yn y sector technoleg drwy hybu datblygiadau newydd a datblygu sgiliau pobl ifanc yn y maes.**<br>**b) Mwy o sefydliadau cyhoeddus ac addysgol yn defnyddio meddalwedd a thechnoleg cyfrwng Cymraeg.**<br>Mae'r hyn yr ydym yn ceisio ei gyflawni drwy'r strategaeth addysg ddigidol yn hynod uchelgeisiol ac yn arwydd o'r ffordd yr ydym ni'n blaenoriaethu addysg ein plant yma yng Ngwynedd. Yn syml, mae'r strategaeth yma, o'i gweithredu'n llawn am roi dyfais addas i alluogi dysgu digidol yn nwylo pob plentyn. Mae digon o *ipads* wedi ei rhannu i roi un i bob pedwar dysgwr yn y Cyfnod Sylfaen, gyda digon o *Chromebooks* wedi eu rhannu fel bod pob dysgwr o flwyddyn 3 i 6 yn cael dyfais yr un. Mae dyfeisiadau Windows 10 yn cael eu paratoi yn ogystal ar gyfer pob disgybl ym mlwyddyn 7, 10 ac 11. Bydd pob un o athrawon Gwynedd yn derbyn dyfais safonol drwy'r strategaeth dros y misoedd nesaf gyda'r gobaith y bydd hyn yn tanio dychymyg a sbarduno ymhellach ddyfeisgarwch ac effeithiolrwydd yr agweddau |

| | |
|---|---|
| | o ddysgu digidol ar draws y sectorau. Gwynedd fydd un o'r awdurdodau cyntaf i wneud hynny yng Nghymru ac mae'n rhywbeth y gallwn ni ymfalchïo ynddo.<br><br>Fe fydd pob dyfais yn cael eu gosod i fod yn Gymraeg yn gyntaf lle bod modd gwneud hynny. Bydd yn agos i 10,000 o ddyfeisiadau yn gwneud defnydd o Windows ac Office 365 drwy'r Gymraeg.<br><br>Yn ogystal mae'r strategaeth yn gosod uchelgais hir dymor i gael mwy o siaradwyr Cymraeg i swyddi gwerth uchel yn y maes digidol. |
| | |
| **2.** | ***Os yw'r adran yn gosod gwaith yn allanol ar gytundeb, allwch chi gyfeirio at unrhyw arfer da, naill ai wrth osod amodau neu wrth fonitro i sicrhau cydymffurfiaeth efo amodau ieithyddol?*** |
| | Mae'r adran yn cynnwys gofynion iaith ar bob cytundeb trydydd parti a chaiff bob cytundeb ei fonitro yn rheolaidd rhwng Rheolwr Gwasanaeth a Rheolwr ar ran y darparwr. Darperir nifer o Gytundebau Lefel Gwasanaeth gan amrywiol adrannau'r Cyngor ar gyfer ein hysgolion megis cynnal a chadw adeiladau gan yr Adran Tai ac Eiddo, cynnal tiroedd gan yr Adran Amgylchedd, a chefnogaeth fusnes a gweinyddiaeth i'r ysgolion cynradd drwy Gytundeb Lefel Gwasanaeth gyda'r Ganolfan Fusnes Ysgolion.<br><br>Mae gan y Gwasanaeth ADY a Ch gytundeb lefel gwasanaeth gyda'r Gwasanaeth Therapi Iaith a Lleferydd o fewn y Bwrdd Iechyd. Mae'r cytundeb yma ar gyfer darpariaeth Therapyddion Iaith a Lleferydd sydd yn cefnogi dysgwyr o fewn Ysgolion Prif Lif Gwynedd a Môn. Mae'n cael ei fonitro ar lefelau gwahanol (rheolaethol a gweithredol) er mwyn adrodd i'r Bwrdd Rheoli ADY a Ch. O fewn y gytundeb yma mae gofyn i'r gwasanaeth ddarparu yn ddwyieithog ar gyfer yr ysgolion, ond gall hyn fod yn heriol iawn o ran recriwtio Therapyddion dwyieithog ac ymateb i'r angen yn amserol. Rydym yn gweithio gyda'r gwasanaeth i oresgyn y rhwystrau o gwmpas hyn. |
| | |
| **3.** | ***Oes yna unrhyw rwystrau i'ch gallu fel adran i gynnig gwasanaeth llawn yn y Gymraeg?*** |
| | **Recriwtio**<br>Mae problemau recriwtio athrawon uwchradd hyfedr yn y Gymraeg mewn pynciau penodol mewn rhai ardaloedd o'r sir yn her anferthol ac yn fater sy'n peri pryder i'r Adran a'r ysgolion a effeithir.<br><br>Mae gan y gwasanaeth ADY a Ch anawsterau recriwtio gweithlu hyfedr yn y Gymraeg mewn meysydd arbenigol megis seicolegwyr addysg a chwnselwyr, a gwyddwn nad yw'r garfan bresennol sydd yn cymhwyso ar y cwrs i ddod yn seicolegwyr addysg er enghraifft yn debygol o arwain at ragor o seicolegwyr addysg i Wynedd. Ar hyn o bryd, mae seicolegwyr addysg yr Adran yn darparu gwasanaeth gyda llai o adnoddau. Er mwyn |

| | |
|---|---|
| | ymateb yn rhagweithiol i'r sefyllfa yma, rydym yn codi'r materion hyn mewn trafodaethau ADY yn rheolaidd mewn cyfarfodydd gyda Llywodraeth Cymru.<br><br>Mae'r gwasanaeth Arlwyo a Glanhau wedi bod yn allweddol drwy gydol y pandemig er mwyn sicrhau awyrgylch diogel i ddysgwyr a staff yn ein hysgolion, yn ogystal â sicrhau darpariaeth cinio ysgol. Mae heriau staffio yng nghyd-destun salwch tymor hir, effeithiau Covid ac anawsterau recriwtio yn effeithio'n ddyddiol ar y gwasanaeth yma, ac mae heriau i sicrhau gweithlu hyfedr yn y Gymraeg mewn rhai ardaloedd o'r sir. Mewn ymateb i hyn, mae'r gwasanaeth wedi manteisio ar gynllun Kickstart, Llywodraeth Cymru i gynnig lleoliadau gwaith o fis Ionawr ymlaen ar gyfer pobl ifanc oedran 16-24 sydd yn derbyn Credyd Cynhwysol ac sydd mewn risg o ddiweithdra tymor hir. Fel rhan o becyn penodi staff rydym yn gofyn i bob aelod o staff y gwasanaeth Arlwyo a Glanhau gwblhau holiadur asesiad iaith er mwyn gweld eu lefel o ddealltwriaeth yn yr iaith ac os oes angen cymorth arnynt i wella ei sgiliau. Bydd y gwasanaeth yn cydweithio gyda Dysgu a Datblygu i ganfod darpariaeth addas i wella sgiliau iaith y staff.<br>Ar hyn o bryd, ceir rhai enghreifftiau o staff y gwasanaeth yn dewis dilyn unedau hunan-astudio ar lein i wella eu sgiliau Cymraeg**.**<br><br>Rydym hefyd yn ymwybodol o anawsterau recriwtio yn yr Uned Gyfreithiol yn y Cyngor, ac yn ddiweddar mae hynny wedi golygu mai gwasanaeth cyfreithiol cyfrwng Saesneg yn unig sydd ar gael i'r Adran Addysg, ac mae hynny'n peri rhwystrau ymarferol i'r Adran o ran rhannu dogfennaeth, a gallu trafod materion cyfreithiol yn Gymraeg.<br><br>**Cyfarfodydd**<br>Mae cydweithio drwy gyfrwng y Gymraeg gyda phartneriaid yn gallu bod yn heriol mewn rhai meysydd. Mae hyn yn cynnwys cyfarfodydd cenedlaethol, rhanbarthol a lleol. Mae darpariaeth cyfieithu ar Zoom yn hawdd ac yn ddi-drafferth iawn i'r rhai sydd ei angen, ond nid yw'r Bwrdd Iechyd er enghraifft wedi medru ei ddefnyddio hyd at yn ddiweddar iawn.<br><br>**Apiau**<br>Schoolcomms<br>Mae'r Adran Addysg wedi bod yn galw ers blynyddoedd bellach i'r ap Schoolscomms fod ar gael yn Gymraeg, er mwyn hwyluso gallu rhieni i ddefnyddio'r ap i dalu am ginio ysgol. Nid ydym wedi gallu hyrwyddo defnydd o'r ap ymysg rhieni gan nad oedd ar gael yn Gymraeg. Erbyn hyn, a gyda chymorth gennym ni i gyfieithu'r ap, mae'r ap Schoolscomms bellach ar gael yn Gymraeg. |
| | |
| **4.** | ***Oes gennych chi syniadau am ffyrdd newydd y gallem ni fod yn hybu'r Gymraeg o fewn cymunedau'r sir – naill ai yn eich gwasanaethau eich hun neu drwy gydweithio gydag eraill?*** |

| | |
|---|---|
| | Fel y gwyddoch mae'r CSGA yn ddogfen statudol 10 mlynedd ar gyfer yr Awdurdod Lleol, ac un o'r rhwystrau o ran ein gallu i weithredu ein gweledigaeth a'n hymrwymiadau yn ein CSGA newydd, yw nad yw'r Awdurdod yn derbyn arian gan Lywodraeth Cymru i'n cynorthwyo i weithredu a chyflawni'r deilliannau a ddymunir. |

**3. ARGYMHELLION**

Gofynnir i'r aelodau:

- gyflwyno unrhyw gwestiynau neu sylwadau ar gynnwys yr adroddiad.